WYTHNOS 2

IESU - PWY OEDD EF?

CYN Y SGWRS

> *Croesawch bawb sydd wedi dod ac awgrymwch eu bod yn cymryd 20 munud i weithio trwy'r adran o'r Llawlyfr Astudio o'r enw TRAFODAETH GRŴP I gyda'u grŵp.*

Y SGWRS

> *Cyflwynwch y sgwrs. Dim ond canllaw cyffredinol yw'r geiriad isod. Diben y sgwrs yw dangos o Efengyl Marc bod Iesu'n gweithredu gyda phŵer Duw a chydag awdurdod Duw. Dylai herio'r cyfranogwyr i ymddiried ynddo i fod ag awdurdod dros eu bywydau hwy.*

Noswaith dda a chroeso i Wythnos 2 ***Darganfod Cristnogaeth***. Mae'n dda eich gweld chi eto.

Gobeithio eich bod yn cofio beth wnaethom ni ei drafod yr wythnos diwethaf. Roedd yn syml iawn, ond yn hynod o bwysig. Nid yw Cristnogaeth yn ymwneud ag adeiladau hardd a gwasanaethau diflas; nid yw yn ymwneud â thaflu eich ymennydd allan o'r ffenestr. Mae Cristnogaeth i gyd yn ymwneud ag Iesu Grist. Dyna pam y gwnaethom ddechrau'r wythnos diwethaf gyda Marc pennod 1, adnod 1: "Dechrau Efengyl Iesu Grist, Mab Duw."

Gofynnwyd unwaith i'r actor Noel Coward, "Beth ydych chi'n ei feddwl am Dduw?" ac atebodd, "Dydyn ni erioed wedi cael ein cyflwyno'n iawn i'n gilydd."

Fe welsom ni'r wythnos diwethaf, yn ôl y Beibl, bod Duw *wedi* cyflwyno'i hun i ni trwy Iesu.

Felly pwy oedd Iesu? Oedd Iesu'n athro moesol da, yn saer coed o Galilea, yn ddyn trugarog a oedd yn gwneud gwyrthiau, yn ffigwr hanesyddol mawr neu beth?

Rydym eisoes wedi gweld bod dyfarniad Marc yn mynd yn llawer pellach na hynny. Edrychwch eto ar Marc pennod 1, adnod 1 ar dudalen ... yn eich Beibl: " Dechrau Efengyl Iesu Grist, Mab Duw."

Nid cyfenw Iesu yw'r gair "Crist"; ni fyddai'n dod o dan "C" yn llyfr ffôn Nasareth. Mae'n golygu "Brenin Eneiniog Duw." Nawr roedd hynny'n beth beiddgar i Marc ei ysgrifennu. Gallai ysgrifennu'r fath beth olygu cael eich taflu at y llewod, oherwydd roedd pawb i fod i addoli'r Ymerawdwr Rhufeinig, Nero, sef brenin eneiniog y duwiau. Ond, ar y cychwyn cyntaf, mae Marc yn dweud *bod* awdurdod uwch na'r ymerawdwr.

A'r hyn y mae Marc yn ei wneud dros benodau cyntaf y llyfr yw pentyrru haen ar ôl haen o dystiolaeth i gyfiawnhau ei honiad mai Iesu yw'r Crist, Mab Duw.

> *Bydd yn rhaid i chi gael y penawdau canlynol yn barod i'w harddangos, gan ddatguddio pob un yn raddol wrth i'r sgwrs fynd yn ei blaen.*

Mae gan Iesu bŵer ac awdurdod:

i ddysgu
dros salwch
dros natur
dros farwolaeth
i faddau pechodau

MAE GAN IESU BŴER AC AWDURDOD I DDYSGU

Felly beth am edrych ar y bloc cyntaf o dystiolaeth. Trowch i Marc pennod 1, adnodau 21-22.

> *Darllenwch Marc 1:21-22 allan yn uchel.*

Yr hyn a oedd yn gosod Iesu ar wahân i athrawon eraill y gyfraith oedd y ffordd yr oedd yn dysgu. Nid oedd athrawon y gyfraith yn llunio eu deunydd eu hunain. Nid oedd unrhyw beth gwreiddiol yn eu dysgu. Nid oeddent yn dysgu heb ddyfynnu ffynonellau eraill. Roeddent yn cuddio y tu ôl i rabïaid mawr y gorffennol ac nid oedd ganddynt unrhyw awdurdod eu hunain. Ond nid oedd Iesu'n dysgu fel hyn. Nid oedd yn cuddio y tu ôl i awdurdod unrhyw un arall; roedd ganddo'i awdurdod ei hun. Dywedodd, "Dywedaf wrthych ar fy awdurdod fy hun; gallwch ymddiried ynof fi."

Nid dim ond *hawlio* bod gan ei eiriau'r un awdurdod â geiriau Duw y mae Iesu; pan mae'n siarad, mae fel petai rhywun wedi rhoi'r golau ymlaen mewn ystafell dywyll. Mae'r hyn yr oedd pobl yn ei glywed o wefusau Iesu yn egluro eu bywydau iddynt. Felly rydym yn gweld yn adnod 22 bod pobl wedi synnu at ei ddysgu.

Ond wedyn mae'n rhaid i ni ofyn: Ai dim ond siarad yn unig ydoedd? A oedd Iesu wir yn byw'r hyn yr oedd yn ei ddysgu? Yr ateb syfrdanol yw, oedd.

> *Mae'n rhaid i mi ddweud mai dyma'r peth cyntaf yr oeddwn i'n ei weld mor gymhellol am Iesu. Yn un ar bymtheg oed dechreuais gadw dyddiadur oherwydd roeddwn i'n credu fy mod cystal dyn fel ei bod yn rhaid i mi roi cofnod o'm bywyd i'r byd. Yr hyn y gwnes i ei ddarganfod oedd fy hunanoldeb fy hun. Hefyd roedd gwrthddywediad llwyr rhwng yr hyn yr oeddwn yn ei ddweud a'r hyn yr oeddwn yn ei wneud.*

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn ymwybodol o'n hunanoldeb ein hunain a'r tensiwn sy'n bodoli rhwng yr hyn yr ydym yn ei ddweud a'r hyn yr ydym yn ei wneud. Ond nid oedd Iesu'n rhagrithiwr crefyddol. Dysgodd "carwch eich gelynion, a gweddïwch dros y rhai sy'n eich erlid." Yn ddiweddarach, wrth iddo gael ei ladd, gweddïodd am ei ddienyddwyr, "O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud." Felly roedd gan Iesu bŵer ac awdurdod i ddysgu.

MAE GAN IESU BŴER AC AWDURDOD DROS SALWCH

Ond nid athro yn unig oedd Iesu. Edrychwch ar bennod 1, adnodau 29-31.

> *Darllenwch Marc 1:29-31 allan yn uchel.*

Yma mae Iesu'n dangos awdurdod llwyr dros salwch. Dim ond un cyffyrddiad â'i law ac mae'r dwymyn yn gwella. Ac nid yw hwn yn ddigwyddiad ar ei ben ei hun. Dair adnod yn ddiweddarach, yn adnod 34, darllenwn fod Iesu wedi iacháu tyrfaoedd o bobl sâl. Rai dyddiau'n ddiweddarach, gydag un cyffyrddiad, iachaodd ddyn oedd â'r gwahanglwyf, sef yr hyn sy'n gyfwerth ag AIDS o ran ei ddifrifoldeb a'r stigma a oedd ynghlwm â'r afiechyd. Yna, ym mhennod 2, iachaodd ddyn a oedd wedi'i barlysu gyda geiriau yn unig: cafodd esgyrn, cyhyrau a gewynnau eu gwau at ei gilydd o flaen llygaid pobl heb unrhyw fath o lawdriniaeth.

Erbyn adnod 12 ym mhennod 2 roedd pawb wedi synnu, ac yn dweud, "Ni welsom erioed y fath beth!" Roedd y byddar yn clywed, y dall yn gweld a'r cloff yn cerdded. Mae'r Efengylau yn cofnodi deg ar hugain o achosion o iacháu, ac mae pob un ohonynt yn dangos bod gan Iesu bŵer ac awdurdod dros salwch.

Efallai y byddai gennych ddiddordeb mewn gwybod bod ffynonellau anghristnogol y cyfnod hefyd yn siarad am Iesu'n iacháu. Mae Josephus, yr hanesydd o Samaria, yn galw Iesu yn "ddyn a oedd yn gwneud pethau rhyfeddol." Roedd pawb yn siarad am ei bŵer gwyrthiol - yr unig ddadl oedd o ble yr oedd y pŵer yn dod. Felly mae gan Iesu bŵer ac awdurdod dros salwch.

MAE GAN IESU BŴER AC AWDURDOD DROS NATUR

Daw'r trydydd bloc o dystiolaeth o Marc 4, adnodau 35-41.

> *Darllenwch Marc 4:35-41 allan yn uchel.*

Mae Iesu a'i ddilynwyr mewn cwch ar Lyn Galilea ac, yn adnod 37, cododd "tymestl fawr o wynt". Nawr ystyr "tymestl fawr" yw chwyrlwynt.

Wrth i'r tonnau dorri dros y cwch nes ei fod yn llenwi, roedd Pedr a'r pysgotwyr eraill a oedd wedi treulio'u bywydau ar Lyn Galilea, yn dweud wrth ei gilydd, "Rydym yn mynd i farw, mae hi ar ben arnom."

Nawr rwy'n sicr na fyddech chi'n pasio arholiadau Diogelwch Bad Achub Galilea pe baech yn dweud mai'r peth gorau i'w wneud mewn chwyrlwynt oedd galw ar y saer coed. Ond dyna beth mae'r disgyblion yn ei wneud. Yn eu dychryn maent yn deffro Iesu, a oedd yn y starn, yn cysgu ar glustog. Nodwch fanylder y llygad-dyst - roedd yn cysgu ar glustog!

Ac maent yn dweud: "Athro, a wyt ti'n hidio dim ei bod ar ben arnom?" Beth mae Iesu'n ei wneud? Gafael yn y llyw a'u llywio allan o'r chwyrlwynt? Nage. Mae'n codi ac yn dweud: "Bydd ddistaw! Bydd dawel!" Yn syth wedyn, yn ôl adnod 39, mae'r gwynt yn gostegu a bu tawelwch mawr. Fel rheol mae'n cymryd dyddiau i donnau dawelu, ond mae Iesu'n eu gostegu gydag ychydig eiriau'n unig.

Rhowch gynnig arni'r tro nesaf y byddwch ar gwch mewn moroedd garw. Gwnewch yn siŵr eich bod ar eich pen eich hun pan fyddwch yn gwneud hyn, ond ewch i gefn y cwch a dweud, "Bydd ddistaw! Bydd dawel!"

Ond dyma'r hyn y gwelodd ei ddilynwyr Iesu'n ei wneud. Does ryfedd bod y darn yn gorffen yn adnod 41 gyda'r geiriau: "Daeth ofn dirfawr arnynt, a meddent wrth ei gilydd, "Pwy ynteu yw hwn? Y mae hyd yn oed y gwynt a'r môr yn ufuddhau iddo."' Pwy bynnag ydyw, mae ganddo bŵer ac awdurdod dros natur.

MAE GAN IESU BŴER AC AWDURDOD DROS FARWOLAETH

Yna, yn y bennod nesaf, mae'r disgyblion yn gweld Iesu'n gwneud rhywbeth mwy rhyfeddol hyd yn oed. Oherwydd yn y bennod nesaf gwelwn Iesu'n dangos ei bŵer a'i awdurdod dros farwolaeth.

Mae llawer o bobl yn ein diwylliant yn cau marwolaeth allan o'u meddyliau. Maent yn debyg i Siegfried Sassoon y bardd, a ysgrifennodd: "Pan oeddwn yn ddau ar hugain oed roeddwn yn credu fy mod yn anniffoddadwy." Nid yw byrdra bywyd yn croesi eu meddyliau. Mae'n hawdd teimlo fel hyn os nad ydym wedi cael y profiad o golli rhywun agos.

> *Roeddwn i'n sicr yr un peth nes i'm tad bedydd farw'n sydyn pan oeddwn yn fy arddegau. Yna sylweddolais fod marwolaeth yn rhywbeth poenus iawn, yn rhywbeth sy'n eich rhwygo - yn bennaf oherwydd ei bod yn torri perthynas â phobl yr ydym yn eu caru.*

Mae'n anodd dod o hyd i berthnasau cariadus. Dyna pam mae marwolaeth mor boenus, oherwydd ei bod yn torri'r perthnasau hyn.

Efallai eich bod wedi gweld cardiau cydymdeimlo sy'n dweud: "nid yw'r bobl yr ydym yn eu caru'n mynd i ffwrdd go iawn." Ond celwydd yw hynny. Dyna'r broblem. Maen nhw yn mynd i ffwrdd, ac rydym yn hiraethu'n fawr amdanynt. Yr hyn sydd fwyaf anodd ei ddioddef yw'r gwahanu. Wel, yn y bloc nesaf o dystiolaeth gwelwn Iesu'n dod wyneb yn wyneb â marwolaeth fel meistr arni, gydag awdurdod llwyr drosti. Trowch gyda mi at Marc 5, adnodau 21-24.

> *Darllenwch Marc 5:21-24 allan yn uchel.*

Yma gwelwn Jairus, arweinydd crefyddol ac un o arweinwyr y synagog, mewn poen oherwydd nad yw'n gallu helpu ei ferch fach, sy'n marw.

Allwch chi uniaethu â'r dyn hwn? Dychmygwch yr anobaith a'r analluogrwydd y byddech chi'n ei deimlo pe baech yn gweld nai/nith, mab/merch bedydd neu eich plentyn eich hun yn marw. Dyna'r angerdd emosiynol sydd i'w weld yn y darn hwn.

Nawr beth am barhau i ddarllen y stori yn adnod 35.

> *Darllenwch Marc 5:35-36 allan yn uchel.*

Does dim byd mwy syfrdanol na hyn. Mae ei ferch fach yn marw ac yna mae Jairus yn clywed y geiriau ofnadwy yn adnod 35, "Y mae dy ferch wedi marw." Ond mae'r Iesu'n dweud wrtho am beidio â phoeni. Yn hytrach, dylai ymddiried ynddo. Nawr dim ond rhywun dewr iawn fyddai'n dweud rhywbeth o'r fath wrth dad trallodus. Dyn dewr, neu o leiaf rywun sydd â llawer o hyder yn ei bŵer ei hun.

Beth am weld beth sy'n digwydd nesaf. Edrychwch ar adnod 37.

> *Darllenwch Marc 5:37-42 allan yn uchel.*

Mae Iesu'n gafael yn llaw'r ferch ac yn dweud, "Fy ngeneth, rwy'n dweud wrthyt, cod." Ac mae'r tad yn cael ei aduno a'r ferch yr oedd yn meddwl ei fod wedi'i cholli am byth. Mae'r neges yn glir: mae'r un mor hawdd i Iesu godi rhywun o blith y meirw ag ydyw i ni ddeffro rhywun pan maent yn cysgu.

Mae gan Iesu bŵer ac awdurdod dros farwolaeth. Ac nid dros farwolaeth y ferch fach yn unig, ond hefyd dros ein marwolaethau ni a'i farwolaeth ei hun, fel y gwelwn dros yr wythnosau nesaf.

Felly os oedd ganddo bŵer dros farwolaeth, yna gwallgofrwydd yw ei anwybyddu a dweud, "Does gen i ddim diddordeb," neu "Mae hyn y ddiflas," neu "Mae'n iawn i ti gredu hynny." Un dydd byddwch chi a fi'n marw. Y cwestiwn yw: a fyddwch yn barod i ymddiried yn Iesu â'ch marwolaeth eich hun?

MAE GAN IESU BŴER AC AWDURDOD I FADDAU PECHODAU

Ond mae'n rhaid i mi ddweud wrthych nad "Bydd ddistaw! Bydd dawel!" a "Cod" yw'r pethau mwyaf beiddgar y mae Iesu'n eu dweud. Trowch nôl i bennod 2, adnodau 1-12, i weld y pumed bloc o dystiolaeth gan Marc - y darn yr ydym newydd edrych arno'n gyflym yn ein TRAFODAETH GRŴP.

> *Darllenwch Marc 2:1-7 allan yn uchel.*

Alla i ddim dychmygu beth oedd yn mynd trwy feddwl perchennog y tŷ wrth iddynt rwygo'i do ar agor. Ond yr hyn sy'n hynod yma yw geiriau Iesu wrth y dyn a oedd wedi'i barlysu yn adnod 5:
"Fy mab, maddeuwyd dy bechodau."

Pam mae Iesu'n dweud hynny yn hytrach na iacháu'r dyn o'i barlys yn syth?

Wel, allwn ni ddim deall hyn yn iawn heblaw ein bod yn deall ystyr y gair "pechod".

Rai blynyddoedd yn ôl, roedd erthygl ym mhapur newydd yr *Independent* am y saith pechod marwol. A dywedodd yr ysgrifennwr: "Yn yr oes sydd ohoni, mae pechod wedi colli'i golyn. Mae pechu rhywfaint yn llawer mwy tebygol o gael ei ystyried fel direidi i bobl yn eu hoed a'u hamser, y math o beth sy'n anfon sioc hyfryd trwy'r system."

Dyna beth mae llawer o bobl yn ei feddwl am bechod. Nid yw'n rhy ddifrifol. Dim ond rhywfaint o hwyl ydyw. Ond pe baech yn deall pechod yn iawn, yn y ffordd y mae'r Beibl yn ei ddisgrifio, nid oes unrhyw beth yn braf amdano. Mae Iesu'n dweud mai pechod yw problem fwyaf dynoliaeth. Nid parlys, cynhesu byd-eang, neu derfysgaeth, ond pechod.

Nid gwneud pethau drwg yn unig yw pechod. Nid dim ond chwant neu ddiogi neu beth bynnag. Nage, yn ôl y Beibl, pechod yw anwybyddu Duw yn y byd y mae Ef wedi'i greu. Pechod yw gwrthryfela yn erbyn Duw trwy fyw heb unrhyw feddwl amdano.

Efallai nad ydym wedi godinebu neu lofruddio, ond rydym ni i gyd wedi dweud, "Fe wna i benderfynu'n union sut i fyw fy mywyd."

Nawr, pam mae anwybyddu Duw yn ei fyd ei hun yn beth mor ddifrifol? Oherwydd os ydw i'n mynnu bod yn annibynnol mewn byd sydd wedi'i greu gan Dduw, mae canlyniadau i hynny. Mae'r Beibl yn cysylltu pechod yn glir iawn â marwolaeth - ac nid marwolaeth ar y byd hwn yn unig, ond marwolaeth dragwyddol. Dyna pam mae pechod yn bwysig. A byddwn yn edrych yn fanylach ar y canlyniadau hyn yr wythnos nesaf.

Yr honiad syfrdanol y mae Iesu'n ei wneud yn y darn hwn yw bod ganddo awdurdod i faddau pechodau.

Mae'r arweinwyr crefyddol yn ymwybodol iawn o oblygiadau hyn. Dydyn nhw ddim yn meindio bod y dyn a oedd wedi'i barlysu yn cael ei alw'n bechadur; maent yn gwybod bod pawb yn bechaduriaid. Mae adnod 7 yn dangos y broblem oedd ganddynt ag Iesu: "Pam y mae hwn yn siarad fel hyn? Y mae'n cablu. Pwy ond Duw yn unig a all faddau pechodau?"

Maent yn dweud wrth Iesu, "Wyt ti'n meddwl cymaint o dy hun nes dy fod yn meddwl y galli di faddau pechodau?" Mae pechod yn tramgwyddo Duw. Felly dim ond Duw sydd â'r hawl i faddau pechodau. Y cwestiwn yw: a oes gan Iesu awdurdod i faddau pechodau go iawn, neu a yw'n cablu fel yr oedd yr arweinwyr crefyddol yn ei honni?

I ateb y cwestiwn hwn, mae Iesu'n gwneud rhywbeth anhygoel. Beth am ddarllen o adnod 8.

> *Darllenwch Marc 2:8-12 allan yn uchel.*

Fel pe bai'n ceisio profi'r honiad bod ganddo awdurdod a phŵer Duw, mae Iesu'n iacháu parlys y dyn ar unwaith gydag ychydig eiriau'n unig. Mae'r dorf a oedd wedi llenwi'r tŷ hwn er mwyn gweld Iesu wedi'u rhyfeddu'n llwyr.

Ond nid yw Iesu'n iacháu er mwyn iacháu. Nid yw Iesu'n iacháu gydag osgo fel petai'n perfformio hud a lledrith mewn syrcas. Na, mae'n iacháu'r dyn - a nifer o bobl eraill - er mwyn datguddio pwy ydoedd go iawn. Mae'n amlwg yn gweithredu ag awdurdod Duw ac â phŵer Duw. Ac mae'n disgwyl i ni ddod i'r casgliad amlwg hwnnw.

Wrth i Iesu ddysgu, tawelu'r storm, codi'r meirw, iacháu'r sâl a maddau pechodau mae'n gweithredu ym myd Duw gydag awdurdod Duw.

Wrth gwrs, os yw hyn yn wir, yna nid syniad haniaethol yn unig ydyw. Mae'n rhywbeth personol iawn. Ydw i'n sylweddoli pwy ydyw? Ydw i'n barod i'w gydnabod fel athro, os ydw i'n hapus â hynny ai peidio? Ydw i'n sylweddoli fod ganddo awdurdod dros fy marwolaeth, os ydw i'n hapus â hynny ai peidio? Ydw i'n gweld fod ganddo awdurdod i faddau fy mhechodau neu i beidio â maddau fy mhechodau? Mae'r rhain yn gwestiynau da i'w gofyn - oherwydd os yw'r holl bethau y mae Iesu'n eu dweud am ei hun yn wir, yna mae'n warth nad ydym wedi bod yn byw o dan ei awdurdod.

AR DDIWEDD Y SGWRS

Dyma rai cwestiynau i chi eu trafod yn eich grwpiau:

> *Dangoswch y cwestiynau canlynol a'u darllen allan yn uchel.*

- **Beth yw eich barn chi am Iesu?**
- **Beth ydych chi'n ei feddwl o'r pum bloc o dystiolaeth y mae Marc yn eu rhoi i ni?**

> *Caniatewch 30 munud i'r grwpiau weithio gyda'i gilydd trwy'r adran yn y Llawlyfr Astudio o'r enw Trafodaeth Grwp 2.*

AR DDIWEDD Y DRAFODAETH

Mae croeso i chi barhau i drafod, ond dyma ddiwedd "swyddogol" y noson. Cyn y tro nesaf, defnyddiwch yr adran ASTUDIO GARTREF yn eich *Llawlyfr Astudio* i'ch helpu wrth i chi barhau i ddarllen trwy Marc.